ATODLEN

RHAN 3

HEREDITAMENTAU NWY

Person dynodedig

BG plc

Hereditamentau perthnasol

Hereditamentau (ar wahân i hereditamentau a eithrir) a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion BG plc yn gweithredol fel cludwr nwy cyhoeddus

Yn y Rhan hon—

ystyr "hereditament a eithrir" yw hereditament sy'n cynnwys tir ac adeiladau a ddefnyddir neu, os nad feddiennnir hwy, y bwriedir eu defnyddio yn gyfan gwbl neu'n bennaf

(a) er mwyn gwneuthur peiriannau a ffitiadau nwy;

(b) fel cyfleusterau storio pwysedd uchel neu gyfleusterau storio nwy naturiol hylifedig neu gyfleusterau a ddefnyddir neu sydd ar gael i'w defnyddio mewn cysylltiad â storio alltraeth;

(c) fel adeiladau swyddfa, pan nad yw'r adeiladau ar dir gweithredol BG plc; neu

(ch) at fwy nag un o'r dibenion blaenorol, ac

mae i "cludwr nwy cyhoeddus" yr un ystyr ag sydd i "public gas transporter" yn Rhan 1 o Ddeddf Nwy 1986(**1**); acmae cyfeiriadau i BG plc yn gyfeiriadau at y cwmni sy'n dwyn yr enw hwnnw ar 9 Tachwedd 1999.

(**1**) 1986 p.44.